**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

POL_002

# Polisi Amgylcheddol

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

## Polisi Allanol a Mewnol

### Adolygiad

| Fersiwn | Dyddiad dod i rym | Perchennog y ddogfen | Sbardun y Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|
| 3 | Drafft | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Bob 3 blynedd. Newidiadau deddfwriaethol / sefydliadol. Newidiadau i risg diogelwch. |

### Cynulleidfa Darged

Yr holl staff, Aelodau, gwirfoddolwyr, contractwyr, ymgynghorwyr neu bartneriaid yr Awdurdod.

### Ymgyngoriadau

| Grŵp | Dyddiad |
|---|---|
| Cynrychiolwyr Staff | 6 Medi 2019 |

### Cymeradwyaethau

Mae angen y cymeradwyaethau canlynol ar y ddogfen hon.

| Cymeradwywyd gan | Enw | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|---|
| Tîm Arweinyddiaeth | Ar Ffeil | 17 Medi 2019 | Ar Ffeil |
| Awdurdod y Parc Cenedlaethol | Ar Ffeil | 16 Hydref 2019 | Ar Ffeil |

# Cynnwys

1. Datganiad Polisi ... 3
2. Pwrpas a Chwmpas ... 5
3. Diffiniadau ... 6
4. Y Cyd-destun Cyfreithiol ... 6
5. Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio ... 7
6. Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ... 8
7. Cyfrifoldebau ... 8
8. Monitro ... 9
9. Cyfeirnodau ... 9
10. Hanes y Fersiwn ... 9

## 1. Datganiad Polisi

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn derbyn cyfrifoldeb am yr effeithiau y gallai ei waith eu cael ar yr amgylchedd lleol a byd-eang. Rydyn ni wedi ymrwymo'n llwyr i leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i'n gwaith, gan gofleidio arferion rhagweithiol sy'n cyfrannu at amgylchedd naturiol sy'n well ei iechyd ac annog y rhai sy'n gweithio gyda ni i wneud yr un peth.

Dibenion yr Awdurdod yw gwarchod y Parc Cenedlaethol, annog y cyhoedd i'w fwynhau a'i ddeall, a meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Byddwn yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [Cymru] 2015 [1], sy'n golygu y byddwn yn "gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau." Mae hyn yn gymwys i'n polisïau ehangach a'n polisïau penodol (mewnol).

**Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gwneud y canlynol:**

**Cydymffurfiaeth**

- Cydymffurfio â'r holl reoliadau amgylcheddol statudol, neu ragori arnynt,
- Amddiffyn ein hamgylchedd trwy arferion a phenderfyniadau rheoli cadarn, a sicrhau bod ein partneriaid busnes a'n contractwyr yn gwneud yr un modd.
- Ymgorffori'r egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [2] ac egwyddorion Datblygu Cynaliadwy'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [1] yn y modd yr ydym yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu.

**Lleihau Allyriadau Carbon**

- Monitro, lleihau ac adrodd ar ein defnydd o ynni a dŵr a chynhyrchu ein hynni adnewyddadwy a charbon isel ein hunain er mwyn lleihau ein hallyriadau carbon.
- Lleihau allyriadau carbon trwy reoli ein fflyd cerbydau yn effeithiol a thrwy arferion cyfrifol wrth deithio ar fusnes. Byddwn yn meithrin diwylliant sy'n sensitif i'r amgylchedd lle mae dulliau amgen a gwyrddach o deithio yn cael eu hannog yn weithredol a lle mae nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb y mae angen teithio i'w cyrraedd yn cael eu lleihau trwy ddefnyddio technolegau rhithwir lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Cyfrannu at dargedau a mentrau lleihau carbon Llywodraeth Cymru a rhanbarthol.
- Ar y cyd â Bwrdd Gwasanaethau Sir Benfro, chwarae rhan allweddol yn y prosiect Dod yn Sir Carbon Niwtral sy'n deillio o Gynllun Llesiant Sir Benfro 2018. Byddwn yn gweithio ar y cyd tuag at gyflawni'r nodau ym mholisïau a chynigion Llywodraeth Cymru sy'n lleihau allyriadau yn uniongyrchol ac yn cefnogi twf economi carbon isel, fel y nodir yn y ddogfen Ffyniant i Bawb:

Cymru Carbon Isel [3].

- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi a hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy yn ardal y Parc.

**Gwastraff**

- Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Gwastraff: Dyletswydd Gofal [4].
- Datblygu a hyrwyddo mecanweithiau i atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac atgyweirio er mwyn lleihau'r gwastraff sy'n cael ei waredu yn safleoedd yr Awdurdod a thrwy ei waith.

**Cadwraeth a Meithrin Gwydnwch**

- Gweithredu arferion atal llygredd.
- Rheoli'r tir sydd yn ein meddiant mewn modd sy'n sicrhau bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn esiampl dda ar gyfer rheoli bioamrywiaeth.
- Annog a hyrwyddo arferion amgylcheddol da trwy ein grantiau, ein cytundebau rheoli tir a'n gwaith ymarferol ar safleoedd.

**Cynllunio**

- Sicrhau bod cynllunio yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol, yn unol â'r nodau llesiant cenedlaethol a rheoli adnoddau naturiol ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (Rhagfyr 2018) [5].

- Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 [5] yn cynnwys pum egwyddor gynllunio allweddol ar gyfer cyflawni'r datblygiad cywir yn y lle iawn. Bydd y Parc Cenedlaethol yn ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ei swyddogaeth gynllunio. Y pum egwyddor yw:

  - Helpu'r economi i dyfu mewn ffordd gynaliadwy,
  - Gwneud y gorau o adnoddau,
  - Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach,
  - Creu a chynnal cymunedau,
  - Amddiffyn yr amgylchedd a chyfyngu ar yr effeithiau ar yr amgylchedd.

- Y system gynllunio 'dan arweiniad y cynllun' yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau datblygu cynaliadwy ac mae'n hanfodol i ddarparu lleoedd cynaliadwy. Bydd y Parc Cenedlaethol yn sicrhau bod Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu a'i adolygu er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a rhesymol.

**Hyrwyddo a Gweithio gydag Eraill**

- Darparu hyfforddiant priodol i staff, gwirfoddolwyr ac Aelodau i wella perfformiad amgylcheddol.
- Hyrwyddo diwylliant sy'n ymwybodol o'r amgylchedd ar draws Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Annog staff yr awdurdod, gwirfoddolwyr,

Aelodau, defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr a chymunedau lleol i nodi a chymryd rhan mewn gweithredoedd ac ymddygiadau cadarnhaol a fydd yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill mewn dull integredig ac ar sail partneriaethau ar gynlluniau a mentrau amgylcheddol.

**Risg y Newid yn yr Hinsawdd ac Ymaddasu**

- Ar y cyd â Bwrdd Gwasanaethau Sir Benfro, cymryd rhan yn y prosiect sy'n deillio o Gynllun Llesiant Sir Benfro 2018, i gynhyrchu Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd a datblygu mesurau priodol mewn ymateb i hynny. Byddwn yn ymdrechu i gyflawni unrhyw gamau lliniarol a fydd yn deillio o’r asesiad y bernir eu bod o fewn cylch gwaith yr Awdurdod.

**Caffael**

- Yn unol â Pholisi Prynu Cynaliadwy yr Awdurdod, prynu cynhyrchion cynaliadwy lle bynnag y bo hynny'n ymarferol gan ffafrio cynhyrchion a gwasanaethau sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd, a gofyn am yr un dyhead hwn gan ein partneriaid busnes, contractwyr a busnesau sy'n gweithredu fel consesiwn ar safleoedd yr Awdurdod.

**Monitro**

- Diweddaru a chynnal y fframwaith a’r System Rheoli Amgylcheddol (EMS), monitro cynnydd tuag at gyflawni ein nodau perfformiad amgylcheddol ac ymrwymo i wella'r EMS a'i ganlyniadau yn barhaus.

## 2. Pwrpas a Chwmpas

2.1 Pwrpas y polisi hwn yw pennu ymrwymiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i wneud penderfyniadau a dewisiadau cynaliadwy, lleihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a chofleidio arferion rhagweithiol sy'n cyfrannu at wella iechyd yr amgylchedd naturiol. Mae'n cyflwyno ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [1], egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [2] ; ac wrth helpu i leihau allyriadau gwastraff a nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

2.2 Mae'r polisi hwn yn diffinio cwmpas y gweithgareddau amgylcheddol y mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro reolaeth ac atebolrwydd

uniongyrchol drostynt, a chyfrifoldebau y nodwyd eu bod o fewn cylch gwaith yr Awdurdod trwy bartneriaethau cydweithredol ehangach.

## 3. Diffiniadau

Diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y polisi hwn:

**Datblygu cynaliadwy**

3.1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2018 [1] ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.

**Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**

3.2 Diffinnir rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) [2] fel: "defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt. Wrth wneud hynny, diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [1]."

## 4. Y Cyd-destun Cyfreithiol

4.1 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys i'r polisi hwn yn cynnwys:

a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [1]
b) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [2]
c) Mesur Gwastraff (Cymru) 2010
d) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 – Cod Ymarfer Gwastraff: Dyletswydd Gofal [4]
e) Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
f) Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005
g) Fframwaith Gwastraff (Cyfarwyddeb 2008/98 EC)
h) Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (2002/96/EC)
i) Cyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC)
j) Cyfarwyddeb Adar (79/409/EEC fel y'i diwygiwyd 2009/147/EC)
k) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
l) Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 [5]

m) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017

4.2 Mae'r Cytundebau Rhyngwladol sy'n gymwys i'r polisi hwn yn cynnwys:

a) Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC)
b) Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD)
c) 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

## 5. Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio

5.1 Mae'r ddyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [1] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflawni datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny rhaid iddo osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

5.2 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Amcanion Llesiant yr Awdurdod wedi'u nodi yng nghynllun corfforaethol ac adnoddau'r Awdurdod sydd hefyd yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn.

5.5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [1] yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith a disgwylir i bob corff cyhoeddus yng Nghymru nodi sut y byddant yn cyflawni eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, pan fydd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniadau, ei fod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

5.6 Mae pum peth y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

| | |
|---|---|
| **Yr hirdymor** | Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal** | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio** | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'i amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithredu** | Ystyried sut y gall cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu â gwahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei |

| | |
|---|---|
| | amcanion llesiant. |
| **Cynnwys** | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. |

## 6. Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

6.1 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [2] yn nodi naw egwyddor syml ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y mae angen iddynt fod yn sail i'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithio. Yr egwyddorion hynny yw:

| | |
|---|---|
| **Rheoli ymaddasol** | Rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd; |
| **Graddfa** | Ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu. |
| **Cydweithio ac Ymgysylltu** | Hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt. |
| **Cyfranogiad y Cyhoedd** | Gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. |
| **Tystiolaeth** | Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch. |
| **Manteision Lluosog** | Ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau. |
| **Effeithiau** | Ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd. |
| **Atal** | Cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau. |
| **Meithrin cydnerthedd** | Ystyried cydnerthedd ecosystemau ac yn benodol, yr agweddau a ganlyn—<br><br>a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;<br>b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;<br>c) graddfa ecosystemau;<br>d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);<br>e) gallu ecosystemau i addasu. |

6.2 Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [2] ystyried bioamrywiaeth a chydnerthedd y ddyletswydd ecosystemau o dan y Ddeddf.

## 7. Cyfrifoldebau

7.1 Mae'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Tîm Arweinyddiaeth yn gyfrifol am weithredu'r Polisi hwn a sicrhau bod diwylliant, arferion ac egwyddorion amgylcheddol cadarnhaol yn cael eu prif ffrydio trwy'r Awdurdod.

7.2 Mae'r holl reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu wrth ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Rhaid i reolwyr sicrhau bod y rhai y maent yn eu rheoli yn gwybod am y Polisi ac yn cadw ato.

7.3 Mae'n ddyletswydd ar yr holl staff, Aelodau a gwirfoddolwyr i gynnal y Polisi Amgylcheddol trwy:

a) Gweithredu ac ymddwyn bob amser mewn ffordd sy'n cefnogi'r meysydd a nodwyd yn yr adran datganiad polisi;
b) Cydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol perthnasol a dwyn unrhyw bryderon ynghylch diffyg cydymffurfio i sylw eu rheolwr llinell neu drwy fecanweithiau adrodd eraill.

## 8. `Monitro

8.1 I sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu’n effeithiol, bydd yr Awdurdod yn diweddaru ac yn cynnal y fframwaith a’r System Rheoli Amgylcheddol (EMS), yn monitro cynnydd tuag at gyflawni ein nodau perfformiad amgylcheddol ac yn ymrwymo i wella'r EMS a'i ganlyniadau yn barhaus.

## 9. Cyfeirnodau

| | | |
|---|---|---|
| *1* | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/section/6/enacted/welsh |
| *2* | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/section/4/enacted/welsh |
| *3* | Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel | https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf |
| *4* | Y Cod Ymarfer Gwastraff: Dyletswydd Gofal | https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/759083/waste-code-practice-2018.pdf |
| *5* | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 | https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf |

## 10. Hanes y Fersiwn

| Fersiwn | Dyddiad dod i rym | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| V3 | | Diweddarwyd y polisi i adlewyrchu gofynion y ddeddfwriaeth bresennol ynghyd â datganiadau o fwriad yr Awdurdod. |